OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1910 (Cy. 173)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Gorffennaf 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Gorffennaf 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Awst 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 10 Awst 2009.

### Diwygio

**2.** Yn rheoliad (Anifail, dofednod a chig dan gyfyngiadau: diffiniadau) o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008(**3**), ym mharagraff 8 o'r fersiwn Saesneg, yn lle “protected” rhodder “protection”.

(**1**) O.S. 2005/2766. Mae swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) 1972 p. 68.

(**3**) O.S. 2008/1275.

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

15 Gorffennaf 2009

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008 (O.S. 2008 Rhif 1275), drwy roi "protection" yn lle "protected" ym mharagraff 8 yn y fersiwn Saesneg.